Cofnodion Cyfarfod Arbed Llanystumdwy
Neuadd y Pentref, Llanystumdwy nos Lun 11.2.08 am 8y.h.

Mynychwyd y cyfarfod gan 25 o bobl yn cynnwys 6 o Lywodraethwyr yr ysgol, rhieni ac aelodau o'r gymuned.

Henry Roberts oedd yn Cadeirio y cyfarfod (HR).

Cytunwyd ar raglen i'n cyfarfod sef :-

1. HR a Gwenda Roberts (GR) (Llywodraethwyr) i adrodd yn ôl o'r cyfarfod hefo'r Cyngor Sir dydd Gwener diwethaf (8.2.08).
2. Cyfarfod nos Fercher (13.2.08).
3. P'nawn Mercher (13.2.08).
4. Sefydlu PwyllgorAmddiffyn ffurfiol.

1. HR a Gwenda Roberts (Llywodraethwyr) i adrodd yn ol o'r cyfarfod hefo'r Cyngor Sir nos Wener diwethaf (8.2.08).

Adroddodd Henry ei fod ef, Gwenda a Tegid Roberts (ar ran yr Eglwys) wedi mynychu cyfarfod hefo Iwan Trefor Jones (Swyddog o dan Y Prif Weithredwr yng Nghyngor Gwynedd). Y cyfarfod wedi ei drefnu gan Cyng. Margaret Griffith.

Cafwyd cyfarfod buddiol.

Eglurwyd fod y Cyngor yn chwilio am sylwadau ar y syniadaeth eang, yn enwedig y cydbwysedd rhwng ffedraleiddio a chreu ysgolion bro/cau ysgolion.

Mae astudiaethau ar y gweill, un i ystyried effaith ieithyddol unrhyw fesurau, ac un arall i asesu gwerth trefn ffedral mewn sefyllfa wledig ac sydd i gyfarfod amcanion y Cyngor.

Cyhoeddwyd fersiwn newydd o ddogfen y Cyngor Sir (ar gael ar y we) lle mae hefyd holiadur.

Bydd canlyniadau hyn i gyd yn bwydo i Gyngor llawn ar yr 19 Mehefin. Ar hyn o bryd mae'n gynamserol i roi sylwadau ar ysgolion unigol, ac ni fydd sefyllfa unrhyw ysgol unigol yn cael ei newid yn y cyfarfod ar yr 19 Mehefin.

Ar ol i HR adrodd yn ôl cafodd pawb gyfle i ofyn cwestiynau.

Cytunwyd y dylid edrych ar y ddogfen newydd a'r holiadur ac anfon sylwadau, gyda phob cyfle i rannu gwybodaeth a sylwadau ymlaen llaw.

Cytunwyd hefyd i beidio cynnig sylwadau yn benodol ar yr ysgol ar hyn o bryd ond i geisio ymateb i'r ystyriaethau ehangach.

Fe soniodd HR a GR am eu casgliadau o'r cyfarfod.

a. Ysgol Eglwys ydyw ysgol y pentref ac mae'n debyg mai gwthio y ffaith yma ymlaen yw ein gobaith cryfa.
b. Efallai hefyd gwthio'r syniad cyffredinol o ysgolion ffederal.

Cafwydd trafodaethau ynglyn ar uchod.

Roedd HR, Gwyn Ellis (Pennaeth) a Geraldine Hackman (Llywodraethwr) wedi mynychu cyfarfod

ynglyn a materion cyllid yn ddiweddar. (Is Bwyllgor Cyllid y Corff Llywodraethol)

Cyfarfod oedd hwn i drafod fformiwla cyllido ysgolion cynradd yng ngoleuni arbedion y mae'n rhaid i'r gwasanaeth ei ganfod. Yr oedd yn ddychryn i'r rhai oedd yno fod ysgolion bychain i'w gweld yn cario cyfar helaeth o'r toriadau - mwy o lawer na'r ysgolion mwyaf. Teimlid fod hyn yn milwrio yn erbyn unrhyw ysgolion ffedral newydd gan y byddent yn cario'r toriadau yma i'r drefn newydd, felly dan anfantais o'r cychwyn. Yr oedd ofnau ers tro y byddai pwysau ariannol i gau safleoedd unigol mewn trefn ffedral yn nes ymlaen. Ofnid fod hynyn cael ei wireddu hyd yn oed cyn i'r drefn ddod i fodolaeth.

Methai'r cyfarfod a deall sut yr oedd y Cyngor Sir yn gallu rhoi trefn yr oeddynt i'w weld yn ei ffafrio dan y fath anfantais.

2. Cyfarfod nos Fercher (13.2.08).

Cymdeithas yr Iaith yn cynnal taith gerdded yr wythnos yma. Dydd Mercher o Groesor i Lanystumdwy.

Mi fydd cyngerdd yn y Neuadd am 7 o'r gloch gyda adloniant ysgafn.
£3 oedolion a £1 i blant.

Penderfynwyd cynnal Tombola i godi arian i'n hymgyrch yma yn Llanystumdwy. Twm ac Elis Gwyn i drefnu.

Angen gymaint a phosib o bobl gael gwybod am y noson gan nad oes llawer o gyhoeddusrwydd wedi bod. Pawb ffonio neu ddweud wrth gymaint a phosib. Mae hyn yn bwysig o hyn ymlaen pan mae cyfarfodydd yn y cwestiwn hefyd. Cytunwyd bod gwerth i ddigwyddiadau o'r fath er mwyn cadw pobl efo'i gilydd a'r ymgyrch yn fyw.

3. P'nawn Mercher (13.2.08).

Mae Cymdeithas yr Iaith yn cerdded drwy'r pentra am 3 o'r gloch. Bydd bocs postio yn cael ei gario ar y daith gan y Gymdeithas er mwyn aelodau o'r cyhoedd yrru eu barn yn ol i Gyngor Gwynedd. Stopio yn y Neuadd i gael panad.

Cytunwyd i drefnu panad a sandwich i'r cerddwyr.

4. Sefydlu Pwyllgor Amddiffyn ffurfiol.

Penderfynwyd bod angen creu Pwyllgor Amddiffyn ffurfiol. Hyn er mwyn gwneud trefniadau yn haws yn y dyfodol. Anodd adrodd yn ôl yn y cyfarfodydd os nad oes Pwyllgor. Rhaid gofalu bod dim bwriad o gau neb allan h.y. mi fydd bob cyfarfod yn dal i fod yn gyfarfod cyhoeddus ond mi fydd y Pwyllgor bach yn dreifio'r ymgyrch ymlaen. Yr oedd y Corff Llywodraethol eisioes wedi cytuno gyda'r syniad.

Roedd gan nifer ddiddordeb mewn bod yn rhan o'r Pwyllgor -
Helen Rose, Gail Jones, Awen Hamilton, Gwenda Roberts, Aled Price, Mannon Griffith, Sian Parry, Twm Morys, Ellis Gwyn, Henry Roberts, Sioned Thomas.

Y bwriad yw i'r uchod gyfarfod ac ethol Swyddogion penodol.

Mae croeso i rhywun arall fod yn rhan o'r Pwyllgor. Angen tynnu pobl gwahanol i fewn fel bo'r angen er mwyn helpu yn yr ymgyrch.

Cytunwyd bod yn hanfodol cadw'n hymgyrch yn fyw.

Cytunwyd y dylai'r grwp gyfarfod cyn gynted a bo modd i drafod y ddogfen newydd a'r holiadur.

5. Unrhyw fater arall

Awgrymwyd fod yr ymgyrch yn rhy ddibynol ar y we.

- mi fydd cofnodion ar gael yn yr ysgol neu ar y we.

Angen creu cylch ffonio.

- mae un o'r rhain wedi eu greu yn barod.

Angen siarad a pasio'r neges bod cyfarfod neu unrhyw wybodaeth ymlaen.

- cytunodd pawb i wneud hyn - angen gosod enwau yn y fram cyn gynted a bo modd.

Dywedodd HR fod cyfarfod yn Mhwllheli ar 1/3/08 (bore) i dynnu ysgolion at eu gilydd.
Gofynwyd i Lanystumdwy gefnogi'r syniad. HR yn golygu mynd. Pawb sydd eisiau mynd fynd.
Pwysleiswyd y pwysigrwydd o gyd-weithio efo ysgolion eraill.